

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin
Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r We Fyd-eang yn parhau i fod yn sail i ddatblygu amrywiaeth eang o dechnolegau sy'n dod yn fwyfwy dylanwadol a strategol, gan gefnogi nifer fawr o gymwysiadau a gwasanaethau, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Mae galw cynyddol am reolwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau i feithrin dealltwriaeth gliriach o'r broses o ddatblygu cymwysiadau, o'r gwaith cynllunio i'w defnyddio a'u cynnal a chadw. Bydd y modiwl hwn yn rhoi cipolwg i fyfyrwyr ar saerniaeth, protocolau, safonau, ieithoedd, adnoddau a thechnegau; dealltwriaeth o'r dulliau o greu cynnwys mwy dynamig a symudol; a dangos sut y gallant werthuso gofynion, cynllunio, dylunio, gweithredu a phrofi amrywiaeth o gymwysiadau gwe.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gwybodaeth am dechnolegau a safonau gwe craidd gan gynnwys HTML, HTTP, XML, DOM, XSLT, XPATH ac ieithoedd rhaglennu megis Javascript a PHP.
- diddordeb mewn saerniaeth cymwysiadau (Cleient/Gweinydd, Haenog, SOA, Rhwydwaith/Cwmwl) ac elfennau (gweinyddion gwe, cronfeydd data ac ati) yn ogystal â chymwysiadau symudol
- rhywfaint o ddealltwriaeth o gynllunio prosiectau sylfaenol, defnyddio groupware, dylunio, gweithredu a phrofi cymwysiadau gwe
- cipolwg ar addysgu technoleg ar lefel 'cysyniadau' a'r gallu i ganolbwyntio arno
- y gallu i helpu myfyrwyr i gynnal prosiect byr (sgiliau rheoli amser, cynllunio, ymchwil ac ysgrifennu)
- diddordeb mewn helpu myfyrwyr drwy roi adborth adeiladol ar asesiadau er mwyn datblygu eu sgiliau allweddol (cyfathrebu, llythrennedd gwybodaeth a dysgu annibynnol)
- parodrwydd i ddysgu sut i ddefnyddio pob un o'r adnoddau meddalwedd a ddefnyddir yn y modiwl i lefel o arbenigedd lle y gallwch roi cyngor pwynt cyswllt cyntaf i fyfyrwyr.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad proffesiynol o ddylunio a/neu reoli'r gwaith o ddatblygu cymwysiadau gwe fel arweinydd tîm
- cymysgedd o brofiad masnachol ac academiaidd ym maes technoleg gwe
- profiad blaenorol fel tiwtor modiwlau sy'n ymwneud â thechnoleg gwe.

Gwybodaeth ychwanegol

- Caiff TT284 ei gyflwyno'n electronig. Cynhelir sesiynau dysgu drwy fforymau ar-lein; caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig. Byddai profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar ddysgu a chymorth o bell yn ddefnyddiol, ond gellir darparu hyfforddiant.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5